PROSIECT
CARTREFI O BREN LLEOL

THE
HOME-GROWN HOMES
PROJECT



# Ffermwyr, Coedwigaeth a Chyflawni

woodknowledge WALES

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Ffermwyr, Coedwigaeth a Chyflawni

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 03 |
| Cyflwyniad | 05 |
| Pwrpas yr Astudiaeth | 05 |
| Dull a Methodoleg | 06 |
| Themâu Allweddol mewn Holiaduron a Chyfweliadau | 07 |
| Proffiliau Ffermydd sy'n Cymryd Rhan | 08 |
| Canfyddiadau | 09 |
| Safbwyntiau Ffermwyr | 10 |
| Safbwyntiau Cynghorwyr | 14 |
| Trafodaeth – Gwybodaeth Allweddol gan Ffermwyr a Chynghorwyr | 17 |
| Crynodeb a Chasgliadau | 18 |
| Y Camau Nesaf | 21 |
| Cyfeiriadau | 21 |


Anna Dauksta o Woodknowledge Wales sydd wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r astudiaeth hon yn rhoi cipolwg ar brofiadau ffermwyr yng nghanolbarth Cymru a'r cyffiniau sydd eisoes wedi sefydlu coetiroedd ar eu tir at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r mabwysiadwyr cynnar hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y cymhellion, y cyfleoedd a'r rhwystrau ymarferol sy'n gysylltiedig ag integreiddio coed i'w busnesau fferm. Mae eu profiadau'n tynnu sylw at rôl bosibl coetiroedd fferm o ran cefnogi gwydnwch gwledig a phwysigrwydd llwybrau cliriach sy'n cysylltu creu coetiroedd â chadwyni cyflenwi pren a'u defnydd yn y pen draw.

Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu profiadau ffermwyr sy'n gweithredu'n bennaf mewn Ardaloedd Llai Ffafriol ar yr ucheldir, lle mae creu coetiroedd yn fwy cyffredin ar hyn o bryd, a dylid eu dehongli yn y cyd-destun hwn. Mae dulliau o greu coetiroedd yn debygol o amrywio ar draws mathau eraill o dir a systemau ffermio.

Mae'r llun isod yn dangos cyd-destun fferm fynydd o un o'r ymweliadau safle, gan dynnu sylw at ddefnyddio lleiniau cysgodi:



**Ffigur 1:** Tirwedd fferm fynydd Ardal Lai Ffafriol yn dangos gwrthgyferbyniad rhwng pori ar fryniau agored ac ardaloedd cysgodol, sy'n cael eu rheoli'n fwy cynhyrchiol.

Roedd ffermwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn gadarnhaol ar y cyfan am goed ar ffermydd lle'r oedd coetir yn cyfrannu at wydnwch ffermydd, arallgyfeirio a sefydlogrwydd economaidd hirdymor. Tynnodd ffermwyr a chynghorwyr sylw at y ffaith fod pobl yn fwy tebygol o gefnogi creu coetiroedd pan fydd cynlluniau'n caniatáu hyblygrwydd ymarferol a phenderfyniadau gan ffermwyr, gan alluogi coed i gyd-fynd â modelau busnes ffermydd.

Tynnodd rhai ffermwyr sylw hefyd at gyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol drwy wneud gwaith coedwigaeth eu hunain, yn enwedig lle gellir addasu peiriannau fferm a llafur i gefnogi'r gwaith o sefydlu a rheoli coetiroedd. Fodd bynnag, nododd ffermwyr a chynghorwyr hefyd y gall prosesau cymeradwyo cymhleth a gofynion rheoliadol arafu'r broses o greu coetiroedd a lleihau hyder ffermwyr wrth ymgysylltu â chynlluniau.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r astudiaeth hefyd yn tynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch coedwigaeth gynhyrchiol yn y gymuned ffermio. Nododd nifer o ffermwyr fod creu coetiroedd yn aml yn cael ei gyflwyno'n bennaf drwy naratifau amgylcheddol, tra bo'r potensial i goed weithio fel cnwd cynhyrchiol o fewn model busnes fferm yn llai hyfyw o fewn llwyfannau ffermio prif ffrwd. Gall cynyddu amlygrwydd coedwigaeth gynhyrchiol mewn rhwydweithiau ffermio dibynadwy – gan gynnwys dysgu rhwng cyfoedion, gwasanaethau cynghori, sioeau amaethyddol a chyfryngau ffermio – helpu i ddangos y rôl economaidd ac ymarferol y gall coetiroedd fferm ei chwarae o ran cefnogi busnesau fferm gwydn a chadwyni cyflenwi pren lleol yng Nghymru.

Daeth gwahaniaeth clir i'r amlwg rhwng safbwyntiau cynghorwyr a ffermwyr ar farchnadoedd carbon. Er bod cynghorwyr yn cyfeirio'n aml at incwm o'r Cod Carbon Coetiroedd fel sbardun posibl i greu coetiroedd, roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn tueddu i flaenoriaethu rheoli tir yn ymarferol, gwydnwch ffermydd, a chyfleoedd i gadw gwerth economaidd yn lleol drwy gynhyrchu pren a'i ddefnyddio ar ffermydd. Fel rhan o'r gofynion cyffredinol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, bydd yn ofynnol i bob fferm gynnal asesiad sylfaenol o garbon. Felly, gall coetiroedd a choed sy'n atafaelu carbon gyfrannu'n gadarnhaol at y cyfrifiadau hyn. Roedd trafodaethau â ffermwyr ar yr adeg y gwnaed y gwaith yn dangos eu bod yn aros i egluro eu sefyllfa mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Dyma brif ganfyddiadau'r astudiaeth:**

- Mae cynghorwyr dibynadwy ac ymgysylltu wyneb yn wyneb yn chwarae rhan hollbwysig mewn penderfyniadau ffermwyr ynghylch creu coetiroedd.
- Mae ffermwyr yn fwyaf cadarnhaol am goed lle mae coetiroedd yn cyfrannu gwerth economaidd neu ymarferol clir o fewn busnes y fferm.
- Mae coetir yn aml yn cael ei ystyried ar wahân i'r fenter fferm graidd, yn enwedig lle nad yw'r achos economaidd yn glir.
- Mae canfyddiadau diwylliannol ym maes amaethyddiaeth yn parhau i ddylanwadu ar agweddau tuag at ehangu coetiroedd, yn enwedig pryderon ynghylch colli tir amaethyddol.
- Gall cymhlethdod rheoleiddiol a gofynion rhagnodol cynlluniau leihau hyder ffermwyr a'u hymgysylltiad â chreu coetiroedd.
- Byddai gwybodaeth gliriach am farchnadoedd coed a chadwyni cyflenwi yn helpu ffermwyr i ddeall sut gall coetiroedd gynhyrchu incwm hirdymor.
- Mae prinder sgiliau ac argaeledd contractwyr yn parhau i fod yn gyfyngiadau, ond maent hefyd yn gyfle i ffermwyr ddatblygu incwm ychwanegol drwy reoli coetiroedd a gwaith contractio ar raddfa fach.
- Gall ffermwyr sy'n mabwysiadu'n gynnar ac sydd eisoes wedi sefydlu coetiroedd chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddylanwadu ar gynlluniau mabwysiadu ehangach drwy ddysgu gan gyfoedion a chyfnewid gwybodaeth rhwng ffermydd.

Mae **Tabl** . yn crynhoi'r berthynas rhwng cymhellion ffermwyr, rhwystrau a chyfleoedd am gymorth i'r sector.

| Cymhellion ffermwyr | Rhwystrau | Cyfleoedd |
|---|---|---|
| Arallgyfeirio incwm ffermydd | Prosesau cymeradwyo a rheoleiddio cymhleth | Arweiniad cliriach a llai o fiwrocratiaeth |
| Coed fel cnwd cynhyrchiol | Dealltwriaeth gyfyngedig o lwybrau a marchnadoedd pren | Cyfathrebu gwell drwy lwyfannau ffermio |
| Gwydnwch hirdymor ar gyfer ffermydd teuluol | Gwrthwynebiad diwylliannol i blannu coed | Ffermydd yn cyfnewid gwybodaeth |
| Defnyddio tir yn hyblyg mewn busnesau fferm | Gofynion plannu rhagnodol | Mwy o hyblygrwydd mewn cynlluniau creu coetiroedd |
| Gwerth lleol o goed a dyfir ar ffermydd | Cysylltiadau cyfyngedig â chadwyni cyflenwi pren | Cysylltiadau cryfach rhwng coetiroedd fferm a chadwyni cyflenwi pren |

**Tabl Crynodeb:** Cymhellion, rhwystrau a chyfleoedd i ffermwyr ar gyfer coetiroedd fferm

Mae'r canfyddiadau hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth gychwynnol sy'n dangos sut mae mabwysiadwyr cynnar yng Nghymru eisoes yn integreiddio creu coetiroedd fferm i fusnesau fferm. Gallai cryfhau cyfathrebu, cymorth ymarferol a chysylltiadau â marchnadoedd pren helpu i ehangu'r dulliau hyn, gan alluogi coetiroedd fferm i gyfrannu'n ehangach at fusnesau fferm gwydn ac uchelgeisiau Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren Llywodraeth Cymru.

# CYFLWYNIAD

Nid hapsampl oedd y ffermwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon. Roedd pob un eisoes wedi sefydlu coetir ar eu ffermydd ac felly'n fabwysiadwyr cynnar creu coetiroedd yn y gymuned ffermio. Mae eu profiadau'n rhoi cipolwg ymarferol ar y cymhellion, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag integreiddio coed a choetiroedd i fusnesau fferm a rheoli tir.

Mae deall sut mae'r mabwysiadwyr cynnar hyn wedi mynd ati i greu coetiroedd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut gellir integreiddio coetiroedd yn ehangach i systemau fferm, yn enwedig lle gallant gyfrannu at wydnwch ffermydd, arallgyfeirio, a chyflenwad pren yn y dyfodol. Mae safbwyntiau'r ffermwyr hyn yn cael eu hategu gan wybodaeth gan asiantwyr a chynghorwyr coedwigaeth sy'n gweithio gyda ffermwyr ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o greu coetiroedd.

# PWRPAS YR ASTUDIAETH

Archwiliodd yr astudiaeth hon brofiadau a chymhellion ffermwyr sydd eisoes wedi sefydlu coetiroedd ar eu tir. Mae'r ffermwyr hyn yn cynrychioli mabwysiadwyr cynnar creu coetiroedd yn y gymuned ffermio ac yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar realiti ymarferol integreiddio coetiroedd i fusnesau fferm. Drwy ymweliadau a sgyrsiau ar y fferm, ceisiodd yr astudiaeth ddeall pam dewisodd y ffermwyr hyn blannu coed, sut mae coetiroedd yn cyd-fynd â systemau eu fferm, a pha gyfleoedd a rhwystrau maent yn eu gweld o ran mabwysiadu'n ehangach. Mae'r canfyddiadau'n rhoi sylfaen dystiolaeth gychwynnol i lywio gwaith yn y dyfodol sy'n cysylltu creu coetiroedd fferm â chadwyni cyflenwi pren, cyfnewid gwybodaeth, ac uchelgeisiau Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren Llywodraeth Cymru.



**Ffigur 2:** Cynghorydd annibynnol Woodknowledge Wales, Chris Jones, yn ymweld â safle i drafod coetir

# DULL A METHODOLEG

## Y Cyd-destun

Archwiliodd yr astudiaeth hon sut mae ffermwyr a chynghorwyr yng Nghymru yn gweld creu coetiroedd o fewn systemau fferm. Mae'n cyfuno safbwyntiau cynghorwyr sy'n gweithio ar draws y sector â thrafodaethau manwl â ffermwyr sydd eisoes wedi sefydlu coetiroedd ar eu tir.

Bwriad gwreiddiol y dasg hon oedd dod â grŵp ehangach o ffermwyr at ei gilydd mewn gweithdy i drafod coetiroedd ar ffermydd ac i archwilio'r potensial ar gyfer cymuned ymarfer ymysg ffermwyr yr ystyrir eu bod yn mabwysiadu coetiroedd cynhyrchiol yn gynnar. Awgrymodd sgyrsiau cychwynnol â chynghorwyr y byddai dull grŵp yn llai effeithiol ar hyn o bryd, yn bennaf oherwydd ymatebion negyddol yn y gymuned ffermio yn dilyn trafodaethau cynnar ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, gan gynnwys awgrymiadau yn gofyn am 10% o goetir ar ffermydd, ochr yn ochr ag ansicrwydd ehangach ynghylch sut byddai'r cynllun yn gweithredu.

Ar sail y trafodaethau hyn, argymhellodd cynghorwyr flaenoriaethu meithrin ymddiriedaeth a datblygu perthynas drwy sgyrsiau un-i-un ac ymweliadau ar y fferm yn hytrach na gweithdai grŵp. Addaswyd y dull felly i ganolbwyntio ar ymweliadau wyneb yn wyneb a thrafodaethau â ffermwyr ar eu ffermydd eu hunain. Bu hyn werthfawr iawn, gan ganiatáu sgyrsiau agored am gymhellion, rheoli coetiroedd yn ymarferol, rhwystrau ymddangosiadol a chyfleoedd yn y dyfodol, gan helpu i feithrin perthynas rhwng ffermwyr a Woodknowledge Wales ar yr un pryd.

## Casglu Data

Cafwyd y rhan fwyaf o fanylion cyswllt cynghorwyr o gyfeiriadur cynllunwyr coetiroedd cofrestredig Llywodraeth Cymru, gyda chysylltiadau ychwanegol yn dod o gyfeiriadur cynghorwyr cymeradwy Cyswllt Ffermio a sefydliad Ymddiriedolaeth Natur lleol sy'n gweithio gyda ffermwyr ar greu coetiroedd ac arallgyfeirio. Anfonwyd holiaduron at y rhai a nodwyd a derbyniwyd 16 ymateb gan asiantwyr coedwigaeth ac ymgynghorwyr sy'n gweithio ledled Cymru.

Cafodd yr holl ymatebion i'r holiadur a'r cyfweliadau eu trin yn ddienw. Defnyddir dyfyniadau uniongyrchol drwy gydol yr adroddiad i ddangos themâu allweddol, heb enwi cyfranogwyr unigol er mwyn diogelu cyfrinachedd a hyrwyddo bod yn agored.

Argymhellodd nifer o gynghorwyr hefyd ffermwyr a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr astudiaeth. Roedd Woodknowledge Wales eisoes yn adnabod dau ffermwr gan eu bod yn defnyddio pren wedi'i dyfu ar fferm ar gyfer adeiladu, ac roedd un ohonynt yn cynnwys melin lifio ar raddfa fach fel rhan o fodel busnes y fferm. Roedd un ffermwr wedi croesawu ymweliad gan y Gymdeithas Coedwigaeth Frenhinol yn y gorffennol i drafod creu coetiroedd ac arallgyfeirio ffermydd er mwyn sicrhau gwydnwch yn y dyfodol. Roedd ffermwr arall wedi plannu coetir ar ôl gweld llwyddiant ariannol fferm gyfagos a oedd wedi sefydlu coedwigaeth gynhyrchiol. Argymhellwyd un ffermwr gan yr Ymddiriedolaeth Natur oherwydd ei fod yn defnyddio creu a rheoli coetiroedd fel rhan o ddull ffermio sy'n ystyriol o natur.

## Cyfweliadau lled-strwythuredig â ffermwyr

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â chwe ffermwr a oedd eisoes wedi sefydlu coetir ar eu ffermydd. Cynhaliwyd pum cyfweliad ar y safle ac wyneb yn wyneb, ac un dros y ffôn. Roedd ymweliadau â ffermydd fel arfer yn para rhwng awr a dwy awr ac yn caniatáu i sgyrsiau symud y tu hwnt i'r cwestiynau strwythuredig, gan alluogi ffermwyr i egluro eu cymhellion, eu profiadau a'u safbwyntiau yn eu geiriau eu hunain. Roedd y dull ansoddol hwn yn rhoi cipolwg manylach ar sut roedd creu coetiroedd wedi cael ei integreiddio i fusnesau fferm a phenderfyniadau rheoli tir o ddydd i ddydd.

Gan fod y ffermwyr a gyfwelwyd yn cynrychioli mabwysiadwyr cynnar o ran creu coetiroedd, dylid ystyried y canfyddiadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai sy'n cynrychioli safbwyntiau pob coetir fferm ledled Cymru. Fodd bynnag, mae ffermwyr a chynghorwyr yn nodi y gallai rhagor o gyfleoedd i ymgysylltu ac astudiaethau achos ychwanegol ddod i'r amlwg drwy waith parhaus yn y maes hwn.

Mae'r ffermydd sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon wedi'u lleoli'n bennaf mewn Ardaloedd Llai Ffafriol ar yr ucheldir, lle mae creu coetir yn fwy cyffredin ar hyn o bryd. Mae hyn yn adlewyrchu ffocws yr astudiaeth ar ffermwyr sydd wedi llwyddo i sefydlu coetir ac wedi'i integreiddio o fewn eu busnesau fferm. O'r herwydd, mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg ar y broses o wneud penderfyniadau yn y cyd-destun hwn ac ni fwriedir iddynt gynrychioli amrywiaeth lawn systemau ffermio ledled Cymru. Mae dulliau o greu coetiroedd yn debygol o fod yn wahanol mewn lleoliadau iseldir mwy cynhyrchiol, lle mae blaenoriaethau defnyddio tir a sbardunau economaidd yn amrywio.

# THEMÂU ALLWEDDOL MEWN HOLIADURON A CHYFWELIADAU

Dadansoddwyd data o'r cyfweliadau â ffermwyr a'r holiaduron i gynghorwyr gan ddefnyddio set o themâu trawsbynciol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o strwythur y ddau holiadur. Roedd hyn yn sicrhau bod modd cymharu gwybodaeth gan y ddau grŵp yn systematig gan gynnal safbwyntiau gwahanol ffermwyr a chynghorwyr ar yr un pryd.

Dyma'r themâu a ddefnyddiwyd:

- Cyd-destun fferm a phresenoldeb coetir sylfaenol
- Ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch coed ar ffermydd
- Agweddau a chanfyddiadau o goed a choetiroedd
- Cymhellion busnes a gwerth tybiedig
- Rhwystrau ymarferol ac economaidd
- Polisïau, grantiau a phrosesau rheoleiddio
- Sgiliau, seilwaith a chapasiti'r sector
- Marchnadoedd a defnyddiau yn y pen draw ar gyfer pren a dyfir ar ffermydd
- Ymddiriedaeth, sefydliadau a chysylltiadau cynghori
- Cyfleoedd yn y dyfodol ac anghenion cymorth y sector.

Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu cynnydd y cwestiynau yn yr amserlen ar gyfer cyfweld â ffermwyr a'r holiadur i gynghorwyr.

Yn ogystal â'r themâu sy'n deillio o strwythur yr holiadur a'r cyfweliad, daeth pwnc marchnadoedd carbon a'r Cod Carbon Coetiroedd i'r amlwg yn organig yn ystod cyfweliadau ac ymatebion. Trafodir y rhain lle bo hynny'n berthnasol yn y canfyddiadau a'r drafodaeth.



**Ffigur 3:** Ar fferm 1 yn y Canolbarth, yn dangos planhigion aeddfed o Gronfa Her Rhedyndir ym 1997 ar y dde, coed llydanddail brodorol cymysg newydd eu plannu ar ochr chwith y trac, a ffynidwydd Douglas mwy aeddfed ar waelod y trac.

# PROFFILIAU FFERMYDD SY'N CYMRYD RHAN

Cymerodd chwe ffermwr o ganolbarth Cymru ran yn yr astudiaeth hon. Roedd y ffermydd yn amrywio o ran maint, math o fenter a dull o sefydlu a rheoli coetiroedd ar ffermydd. Mae'r proffiliau canlynol yn dangos yr amrywiaeth o gyd-destunau ffermydd a'r cymhellion ymysg mabwysiadwyr cynnar creu coetiroedd.

**Ffermwr 1**

"Prif bwrpas plannu coed oedd er mwyn talu'r morgais."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Formerly sheep and cattle (small flock of sheep and horses on remaining land) | 100 ha (250 acres) | Ardal Lai Ffafriol/ Ucheldir | 75% (coetir cymysg gan gynnwys blociau llydanddail a phren meddal) |

**Dull gweithredu:**
Mabwysiadwyd creu coetir fel dull arallgyfeirio ariannol ochr yn ochr â cheffylau a llety gwyliau. Roedd plannu coed yn cael ei ysgogi'n bennaf gan yr awydd i greu sefydlogrwydd ariannol a chryfhau gwytnwch busnes fferm, yn enwedig o'i gymharu ag enillion cyfnewidiol da byw.

**Ffermwr 2**

"Cyn i ni blannu coed, doeddwn i ddim yn gallu gweld yr elw yn y busnes... Roeddwn i'n ceisio diogelu'r fferm at y dyfodol."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Sheep (formerly mixed livestock) | 200 ha (500 acres) | Ardal Lai Ffafriol/ Ucheldir | 20% (pren meddal yn bennaf - tua 65%) |

**Dull gweithredu:**
Mabwysiadwyd creu coetiroedd fel ymateb strategol i ansicrwydd mewn marchnadoedd amaethyddol a llai o hyder mewn proffidioldeb da byw. Ystyriwyd bod plannu coed yn benderfyniad busnes hirdymor i ddiogelu'r fferm at y dyfodol a disodli cynhyrchu da byw ar dir tlotach.

**Ffermwr 3**

"Roedd fy nhad bob amser yn plannu coed fel lloches... rydych chi'n dechrau gweld y gwerth dros amser."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Mixed livestock with cropping | 222 ha (550 acres) | Ardal Lai Ffafriol/ Ucheldir | 23% (pren meddal yn bennaf - tua 65%) |

**Dull gweithredu:**
Datblygodd coetir ar y fferm yn raddol o leiniau cysgodi a blannwyd gan genedlaethau blaenorol i fod yn adnodd coedwigaeth cynhyrchiol o dan ddylanwad fferm gyfagos ac sy'n cyflenwi marchnadoedd pren ochr yn ochr â'u defnyddio ar y fferm.

# PROFFILIAU FFERMYDD SY'N CYMRYD RHAN

**Ffermwr 4**
"Mae'n rhan o'r dirwedd yma ac yn rhan o'r ffordd rydyn ni'n rheoli'r tir."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Mân-ddaliad da byw cymysg | 19 ha (40 acres) | Lai Ffafriol / Ucheldir | 25% (coedwig lydanddail aeddfed gan gynnwys ardaloedd afonol, coedlan a choed perllan) |

**Dull gweithredu:**
Rheolir coetiroedd a phlannu coed ar y safle hwn yn bennaf er mwyn sicrhau gwydnwch aelwydydd a gwerth ecolegol. Mae ardaloedd coetir yn cynnwys systemau perllannau a choetir integredig sy'n darparu coed tân, deunydd ffensio a phren adeiladu bach.

**Ffermwr 5**
"Rydyn ni wastad wedi torri ein pren ein hunain i'w ddefnyddio os gallwn ni."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Sheep and beef with cropping | 100ha (250 acres) | Lai Ffafriol / Ucheldir | 10% (coetir cymysg gan gynnwys derw a blociau pren meddal bach) |

**Dull gweithredu:**
Yn hanesyddol, mae coetir ar y fferm wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion ymarferol, gan gynnwys pren adeiladu a deunyddiau ffensio. Arferai tad y ffermwr redeg melin lifio fach ar y fferm, gan gyflenwi a phrosesu pren yn lleol. Mae'r ffermwr nawr yn bwriadu ailsefydlu melinau bychan i gefnogi prosesu ar y fferm ac o bosibl cyflenwi marchnadoedd lleol.

**Ffermwr 6**
"Datblygodd defnyddio melin lifio o hobi."

| Math o fferm: | Maint y fferm: | Math o dir: | Gorchudd coetir: |
|---|---|---|---|
| Sheep and beef with cropping and sawmill | 120ha (300 acres) | Ardal Lai Ffafriol | 5-7% (pren meddal wedi'i flaenoriaethu ar gyfer cynhyrchu pren) |

**Dull gweithredu:**
Mae'r fferm yn integreiddio busnes melin lifio masnachol ar raddfa fach. Mae plannu coetiroedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gynhyrchu pren ar gyfer y dyfodol a gwneud y defnydd gorau posibl o dir mewn rhannau llai cynhyrchiol o'r fferm.

# CANFYDDIADAU

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno safbwyntiau ffermwyr a chynghorwyr ar wahân. Mae defnyddio'r fframwaith thematig a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad yn caniatáu i ni nodi tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y safbwyntiau hyn wrth gynnal y cyd-destun y mae pob grŵp yn gweithredu ynddo.

# SAFBWYNTIAU FFERMWYR
# 1. CYD-DESTUN FFERMYDD

### 1. Cyd-destun ffermydd

- Roedd maint ffermydd yn amrywio o fân-ddaliadau o lai nag 20 hectar i ffermydd dros 200 hectar.
- Roedd mentrau fferm yn cynnwys defaid a chig eidion, systemau da byw cymysg, a ffermydd cymysg gyda rhywfaint o gnydio ar gyfer bwydo neu gylchdroi.
- Roedd y rhan fwyaf o ddaliadau wedi'u lleoli mewn Ardaloedd Llai Ffafriol / amgylcheddau ucheldir, a nodweddir yn aml gan dir ymylol neu lai cynhyrchiol.
- Roedd gorchudd coetir ar draws y ffermydd yn amrywio'n sylweddol, gan amrywio o tua 5% i dros 75% o ddaliad y fferm.
- Roedd y mathau o goetir yn amrywio rhwng ffermydd ac yn cynnwys lleiniau cysgodi, blociau coetir gwasgaredig, ardaloedd mwy o goedwigaeth gynhyrchiol ac mewn un achos, plannu ar ffurf amaeth-goedwigaeth.
- Roedd rhywogaethau coed hefyd yn amrywio, yn dibynnu ar amcanion y ffermwr a gofynion y cynllun plannu, gan gynnwys rhywogaethau pren meddal fel ffynidwydd Douglas a sbriws ochr yn ochr â rhywogaethau llydanddail cymysg gan gynnwys derw a chymysgeddau coetir brodorol eraill.

Mae'r amrywiaeth hwn yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae coetiroedd yn cael eu hintegreiddio i gynlluniau a busnesau fferm, yn amrywio o goetiroedd bach swyddogaethol i systemau coedwigaeth cynhyrchiol mwy.

### 2. Sut mae coetiroedd yn rhan o fusnesau fferm

Cafodd coetiroedd eu hintegreiddio i fusnesau fferm mewn amrywiaeth o ffyrdd ar draws y ffermydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd coetir yn rhan o system ffermio gymysg ehangach yn hytrach nag yn disodli ffermio'n gyfan gwbl.

Roedd rolau allweddol coetiroedd mewn busnesau fferm yn cynnwys:
- Lloches i dda byw ac amddiffyn caeau a seilwaith.
- Darparu pren a chynhyrchion pren i'w defnyddio ar y fferm, gan gynnwys ar gyfer biomas, sarn, deunyddiau ffensio, pren adeiladu a choed tân.
- Cynhyrchu pren yn y tymor hir, yn enwedig lle'r oedd rhywogaethau pren meddal cynhyrchiol wedi cael eu plannu.
- Cyfleoedd arallgyfeirio, gan gynnwys melin lifio a defnyddio pren wedi'i dyfu ar fferm mewn adeiladau neu fentrau fferm eraill.
- Defnyddio tir llai cynhyrchiol, gyda choetir yn aml yn cael ei blannu ar rannau serth, ymylol neu anodd fel arall o'r fferm.

Disgrifiodd nifer o ffermwyr goed fel elfen gynhyrchiol o system y fferm, yn enwedig lle gellid cynaeafu neu brosesu pren yn lleol.

Ar gyfer un fferm, roedd prosesu coed wedi dod yn weithgarwch arallgyfeirio sylweddol ochr yn ochr â ffermio da byw.

*"Fe allwch chi ddiffodd y felin a mynd yn ôl i'r fferm."* - **Ffermwr 6**

Mewn achosion eraill, ystyriwyd bod coetir yn gnwd hirdymor a allai gefnogi arallgyfeirio ehangach ar ffermydd, gan gynnwys twristiaeth. Disgrifiodd un ffermwr sut roedd coetir o amgylch llety ar y fferm yn rhoi lle i ymwelwyr gerdded cŵn, marchogaeth ceffylau a mwynhau amgylchedd y goedwig, gan ychwanegu gwerth hamdden ochr yn ochr â manteision ymarferol fel lloches a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Ar y cyfan, roedd ffermwyr yn tueddu i edrych ar goetiroedd yn amlswyddogaethol yn hytrach nag fel un fenter ac yn fwyaf cadarnhaol lle roeddent yn darparu gwerth swyddogaethol neu economaidd clir o fewn busnes y fferm.

### 3. Canfyddiadau am goed a choetiroedd ar ffermydd

Disgrifiodd ffermwyr eu canfyddiadau eu hunain o goed a choetiroedd, yn ogystal â sut maent yn credu bod coed yn cael eu gweld yn ehangach yn y gymuned ffermio.

Roedd canfyddiadau allweddol y ffermwyr a gyfwelwyd yn cynnwys:
- Coetiroedd fel seilwaith swyddogaethol, yn rhoi lloches, rheoli ffiniau, cynefinoedd, mannau hamdden a deunyddiau fel pren, ffensys a choed tân.
- Coed fel cnwd cynhyrchiol hirdymor, gan gynnwys lle'r oedd cynhyrchu neu brosesu coed yn rhan o fusnes y fferm.
- Coetir fel defnydd tir cynhyrchiol ar gyfer tir ymylol neu anghynhyrchiol, yn hytrach na thir amaethyddol craidd.

Myfyriodd ffermwyr hefyd ar agweddau ehangach yn y gymuned ffermio:
- Mae creu coetir yn aml yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n gwrthdaro â blaenoriaethau cynhyrchu bwyd.
- Nid oes dealltwriaeth dda o goed fel cnwd yn y diwylliant ffermio.

*"Dydy ffermwyr ddim yn meddwl am goed fel cnwd... mae'n rhywbeth rydych chi'n ei wneud ar ddarn o dir diffaith."* - **Ffermwr 1**

# SAFBWYNTIAU FFERMWYR

Priodolwyd gwrthwynebiad diwylliannol i ehangu coetiroedd i'r canlynol:

- Traddodiadau ffermio
- Ofn newid defnydd tir na ellir ei wrthdroi
- Hunaniaeth yn gysylltiedig â chynhyrchu bwyd.

Mae pryderon ynghylch colli tir cynhyrchu bwyd yn parhau i ddylanwadu ar agweddau ffermwyr tuag at blannu coed.

*"Os ydych chi'n plannu coed yno, dydych chi byth yn mynd i gynhyrchu bwyd ar yr erw honno eto."* - **Ffermwr 5**

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod ffermwyr sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â choetiroedd yn aml yn cydnabod manteision ymarferol ac economaidd, y gallai canfyddiadau diwylliannol ehangach ym maes amaethyddiaeth barhau i ddylanwadu ar agweddau tuag at blannu coed.

### 4. Cymhellion ariannol a gwydnwch busnes

Cyfeiriwyd yn aml at ystyriaethau economaidd fel ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch creu coetiroedd. Ar draws y cyfweliadau, roedd coed yn aml yn cael eu hystyried yn rhan o strategaeth ehangach i gryfhau gwydnwch hirdymor busnesau fferm.

Roedd y prif gymhellion ariannol a nodwyd yn cynnwys:

- Arallgyfeirio incwm ffermydd, yn enwedig lle'r oedd mentrau da byw dan bwysau ariannol. Grantiau creu coetiroedd a thaliadau cynnal a chadw, a oedd yn darparu incwm rhagweladwy yn ystod y cyfnod sefydlu.
- Cynhyrchu pren yn y tymor hir, sy'n cael ei ystyried yn gnwd ar gyfer y dyfodol a allai gynhyrchu gwerth yn ddiweddarach yn y cylchdro.
- Defnyddio pren wedi'i dyfu ar fferm yn y busnes, gan leihau costau adeiladu, ffensio a thanwydd.
- Datblygu mentrau sy'n gysylltiedig â phren, gan gynnwys melin lifio ar raddfa fach.
- Marchnadoedd carbon, a oedd mewn un achos yn darparu incwm ychwanegol ochr yn ochr â grantiau creu coetiroedd.

Disgrifiwyd coetir hefyd fel ffordd o drawsnewid tir sy'n tanberfformio yn ased hirdymor sy'n rhoi sicrwydd i'r fferm deuluol.

Disgrifiodd nifer o ffermwyr daliadau coetir fel elfen bwysig o sefydlogrwydd ariannol ffermydd.

*"Dydy'r anifeiliaid ddim yn talu. Mae'r grant yn talu am bopeth ac mae'r taliadau cynhaliaeth yn helpu i gadw pethau'n sefydlog."* - **Ffermwr 2**

Eglurodd un ffermwr fod incwm coetiroedd yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrwydd ariannol yr aelwyd.

*"Mae'r taliadau coetir yn talu am y morgais."* - **Ffermwr**

I ffermwyr a oedd wedi ymgysylltu â marchnadoedd carbon, roedd creu coetiroedd hefyd yn cael ei ystyried yn gyfle i greu gwerth ychwanegol o blannu coed. Fodd bynnag, roedd agweddau tuag at garbon yn amrywio ar draws y cyfweliadau, gyda rhai ffermwyr yn mynegi ansicrwydd neu amheuaeth ynghylch cytundebau carbon hirdymor.

Pwysleisiodd ffermwr arall fod yn rhaid i fentrau pren fod yn hyfyw yn ariannol y tu hwnt i gymorth grant yn y pen draw.

*"Gall y grant fod yno i ddechrau arni... ond mae'n rhaid iddo sefyll ar ei draed ei hun."* - **Ffermwr 6**

**Ffigur 4:** Coetir ar y fferm wedi'i integreiddio i ardal lai cynhyrchiol ac yn cael ei reoli ar gyfer cynhyrchu pren.
*Llun drwy garedigrwydd Ffermwr 2.*



# SAFBWYNTIAU FFERMWYR

### 5. Heriau ymarferol creu a rheoli coetiroedd

Nododd ffermwyr nifer o heriau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rheoli coed ar ffermydd.

Roedd y prif heriau'n cynnwys:

- Sefydlu coed ifanc, yn enwedig rheoli chwyn, sychder a phlannu coed newydd yn lle'r rhai sydd wedi methu.
- Materion yn ymwneud â diogelu coed, gan gynnwys difrod gan ysgyfarnogod, ceirw a da byw sy'n pori.
- Amserlenni hir hyd at aeddfedrwydd, gyda phren yn cael ei weld fel cnwd a allai gymryd degawdau i wireddu gwerth.
- Argaeledd contractwyr addas, yn enwedig ar gyfer gwaith coetir ar raddfa lai.
- Cyfyngiadau o ran mynediad a thirwedd, yn enwedig ar dirweddau fferm sy'n ddarniog neu ar ucheldir.

Nododd nifer o ffermwyr mai cyfnod sefydlu creu coetiroedd oedd yr anoddaf.

*"Eu sefydlu nhw... dyna'r peth anoddaf."* - **Ffermwr 6**

Roedd yn well gan rai ffermwyr roi'r gwaith o gynllunio a rheoli coetiroedd ar gontract allanol i asiantwyr coedwigaeth, yn enwedig lle'r oedd prosesau rheoleiddio'n cael eu hystyried yn gymhleth.

*"They took everything out of my hands... it lets me concentrate on my kids."* - **Ffermwr 2**

Tynnodd eraill sylw at brinder contractwyr coedwigaeth ar raddfa fach, gan nodi bod y rhan fwyaf o'r gweithredwyr sydd ar gael wedi'u hanelu at weithrediadau coedwigaeth masnachol mwy.

### 6. Fframweithiau polisi a chynlluniau grant

Disgrifiodd ffermwyr brofiadau cymysg gyda fframweithiau polisi coetiroedd a chynlluniau grant. Er bod cefnogaeth ariannol yn cael ei chydnabod yn eang fel rhywbeth pwysig i alluogi creu coetiroedd, tynnodd nifer o ffermwyr sylw at heriau sy'n ymwneud â dylunio cynlluniau, gofynion cydymffurfio a negeseuon polisi.

Roedd y prif themâu yn cynnwys:

- Roedd grantiau creu coetiroedd yn cael eu hystyried yn gymhelliant pwysig ar gyfer sefydlu coed, yn enwedig lle'r oedd mentrau da byw dan bwysau ariannol.
- Roedd prosesau gweinyddol a gofynion cydymffurfio yn aml yn cael eu disgrifio fel rhai cymhleth a oedd yn cymryd llawer o amser.
- Mynegodd rhai ffermwyr rwystredigaeth â gofynion cymysgedd rhywogaethau mewn cynlluniau grant, yn enwedig lle'r oedd y rhain yn cyfyngu ar y gallu i blannu rhywogaethau pren cynhyrchiol i'r eithaf.
- Dywedwyd yn aml fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn aneglur neu'n ddryslyd.
- Roedd rhai ffermwyr yn ystyried trafodaethau polisi ynghylch targedau gorchudd coed yn anodd eu cysoni â blaenoriaethau cynhyrchu bwyd.

Roedd un ffermwr yn dweud bod y gwaith papur sy'n gysylltiedig â chreu coetiroedd yn rhy gymhleth.

*"Mae'n rhy gymhleth... os ydyn nhw eisiau i bobl blannu coetir, dylen nhw ei wneud yn haws."* - **Ffermwr 6**

Tynnodd sylw hefyd at rwystredigaeth gyda gofynion cymysgedd rhywogaethau mewn cynlluniau creu coetiroedd.

*"Fe wnaethon ni blannu dwy erw ein hunain... 100% Douglas."* - **Ffermwr 6**

### 7. Sgiliau, contractwyr a chapasiti rheoli ar y fferm

Disgrifiodd ffermwyr amrywiaeth o ddulliau rheoli coetiroedd ar eu ffermydd, gan adlewyrchu gwahaniaethau mewn sgiliau, y llafur sydd ar gael a blaenoriaethau busnes.

Dyma oedd y prif ganfyddiadau:

- Roedd yn well gan rai ffermwyr roi'r gwaith o sefydlu a rheoli coetiroedd ar gontract allanol i asiantwyr coedwigaeth proffesiynol.
- Roedd eraill yn rheoli coetir yn uniongyrchol ar y fferm, gan ddefnyddio peiriannau fferm presennol ac addasu offer lle bo hynny'n bosibl.
- Roedd un ffermwr yn ymwneud â chontractio coedwigaeth a gwelodd y cyfle i ffermwyr ifanc wneud yr un peth.
- Roedd ffermwr arall yn cynnwys prosesu coed ac yn integreiddio hyn i'w fodel busnes fferm ehangach.
- Tynnodd nifer o ffermwyr sylw at brinder contractwyr coedwigaeth ar raddfa fach, yn enwedig ar gyfer plannu, cyfnod sefydlu, teneuo a rheoli.
- Mynegodd rhai ddiddordeb mewn datblygu sgiliau prosesu coed a choedwigaeth.

# SAFBWYNTIAU FFERMWYR

Disgrifiodd un ffermwr sut roedd peiriannau fferm wedi wedi cael eu haddasu i gefnogi gwaith coedwigaeth ar y fferm ac oddi arni.

*"Rydyn ni'n addasu'r offer fferm i wneud y gwaith coedwigaeth." -* **Ffermwr 1**

Tynnodd ffermwyr eraill sylw at fwlch yn argaeledd contractwyr, yn enwedig ar gyfer rheoli coetiroedd ar raddfa lai.

*"Mae'r bobl hynny...yn brin iawn bellach."* **Ffermwr 6**

Yn yr achosion hyn, mae rheoli coetiroedd fferm yn rhan o sbectrwm o fentrau allanol llawn i fentrau fferm cwbl integredig.

### 8. Marchnadoedd a defnyddiau ar gyfer coed o goetiroedd fferm

Ar draws y ffermydd sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd pren o goetiroedd fferm mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dibynnu ar fath, graddfa a dull rheoli coetiroedd. Mewn llawer o achosion, roedd pren yn aros o fewn system y fferm neu'r ardal leol, yn enwedig lle'r oedd ardaloedd coetir yn fach neu'n cael eu rheoli'n weithredol gan y ffermwr.

Roedd cynnyrch presennol y coetir yn cynnwys:
- Coed tân
- Deunyddiau ffensio
- Boncyffion a phren heb ei raddio ar gyfer adeiladu
- Sglodion coed ar gyfer biomas a sarn
- Teneuo coetiroedd cynhyrchiol ar raddfa fwy a chynaeafu terfynol i gyflenwi proseswyr rhanbarthol a marchnadoedd pren drwy gadwyni cyflenwi masnachol sefydledig.

Mynegodd nifer o ffermwyr ddiddordeb mewn cynyddu'r gwerth sy'n deillio o bren drwy brosesu ar raddfa fach. Roedd un ffermwr eisoes yn rhedeg melin lifio fach ar y fferm, ac roedd eraill yn trafod uchelgeisiau i brosesu pren yn lleol neu ddatblygu marchnadoedd yn yr ardal gyfagos.

Nododd nifer o ffermwyr hefyd fod pren, biomas, incwm carbon a grantiau coetir yn elwa ar driniaeth dreth ffafriol ar hyn o bryd. Mewn cymhariaeth, dywedodd rhai ffermwyr fod mentrau da byw yn ariannol heriol ar ôl ystyried costau llawn cynnyrch fel bwyd anifeiliaid, sarn, defnyddio peiriannau a llafur.

Mewn un achos, dylanwadwyd ar benderfyniadau plannu diweddar gan ofynion marchnadoedd carbon a rheolau ychwanegedd:

*"Mae credydau carbon yn werth mwy... os yw'r cyfan yn llydanddail, rydych chi'n bodloni ychwanegedd yn hawdd." -* **Ffermwr 1**

### 9. Cymorth, cyngor ac ymgysylltu â'r sector yn y dyfodol

Roedd ffermwyr yn aml yn tynnu sylw at bwysigrwydd asiantwyr a chynghorwyr dibynadwy a chanllawiau ymarferol wrth wneud penderfyniadau am greu a rheoli coetiroedd a chynhyrchu pren.

Roedd y prif themâu yn cynnwys:
- Defnyddio asiantwyr coedwigaeth a chynllunwyr coetiroedd i lywio ceisiadau am grantiau, prosesau rheoleiddio a dylunio coetiroedd.
- Pwysigrwydd cyfryngwyr dibynadwy i helpu ffermwyr i ddeall y cymhellion sy'n gysylltiedig â chreu a rheoli coetiroedd a chynhyrchu pren.
- Diddordeb mewn cyfleoedd dysgu ymarferol, gan gynnwys ymweliadau â ffermydd a chyfnewid gwybodaeth rhwng cyfoedion.
- Ffafrio enghreifftiau ymarferol a phrofiad ffermwyr yn gyffredinol, yn hytrach na negeseuon sy'n seiliedig ar bolisi yn unig.
- Diddordeb mewn canllawiau cliriach ar arferion coedwriaeth, yn enwedig teneuo, rheoli rhywogaethau ac ansawdd pren, i helpu i gynyddu gwerth pren a dyfir ar ffermydd.
- Diddordeb mewn cael gwybodaeth gliriach am sut i gael gafael ar farchnadoedd pren lleol, gan gynnwys llwybrau at brosesu ar raddfa fach, cadwyni cyflenwi adeiladu a defnyddio pren yn lleol.

Mynegodd yr holl ffermwyr ddiddordeb mewn parhau i ymgysylltu â Woodknowledge Wales, gan gynnwys y posibilrwydd o groesawu ymweliadau â'u ffermydd neu gyfrannu at weithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

Prin oedd yr ymwybyddiaeth o Woodknowledge Wales ymysg nifer o gyfranogwyr cyn y cyfweliadau, ond roedd diddordeb mewn dysgu mwy am waith y sefydliad wedi cynyddu drwy'r sgyrsiau.

Mae gan ffermwyr ddiddordeb mewn tyfu coed, ond mae angen llwybrau cliriach o reoli coetiroedd i gyfleoedd yn y farchnad.

# SAFBWYNTIAU CYNGHORWYR

### 1. Y cyd-destun y mae cynghorwyr ffermydd a thirwed-dau yn gweithio ynddo

Dywedodd cynghorwyr eu bod yn gweithio gydag amrywiaeth eang o ffermydd ledled Cymru:

- Gan gynnwys llaeth, gwartheg a defaid, da byw cymysg, ffermydd cymysg, tir âr a chnydio, mân-ddaliadau.
- Yn aml maent yn gweithredu mewn tir isel cymysg yn yr ucheldir yn ogystal ag Ardaloedd Llai Ffafriol, ac weithiau ar dir isel yn unig.
- Nododd y rhan fwyaf o gynghorwyr fod gorchudd coetir nodweddiadol ar ffermydd yn amrywio'n fawr rhwng daliadau.
- Roedd y farn yn amrywio o ddim graddfa sylfaenol i goetiroedd yn cael eu hintegreiddio fel rhan o fusnes y fferm i 30 hectar er mwyn bod yn hyfyw.

### 2. Ymgysylltu â ffermwyr ynghylch newid defnydd tir

Pwysleisiodd y cynghorwyr yn gyson bwysigrwydd ymgysylltu uniongyrchol, wyneb yn wyneb.

Roedd y prif sylwadau'n cynnwys:

- Nododd 11 o'r 16 cynghorydd mai ymweliadau wyneb yn wyneb, un-i-un, ar y safle oedd y dull mwyaf effeithiol o gyfathrebu.
- Roedd cerdded o amgylch y tir gyda ffermwyr yn aml yn cael ei ddisgrifio fel y ffordd orau o drafod newid defnydd tir.
- Ystyriwyd bod perthnasoedd personol ac ymddiriedaeth yn fwy dylanwadol na chanllawiau ysgrifenedig neu negeseuon polisi.

Yn ddiddorol, nid oedd cynghorwyr yn nodi rheoli dŵr, lliniaru dŵr ffo na rheoli llygredd fel ffactorau roedd ffermwyr yn eu codi'n gyffredin wrth drafod creu coetiroedd.

### 3. Barn cynghorwyr am agweddau ffermwyr tuag at goetiroedd ar ffermydd

Disgrifiodd y cynghorwyr agweddau ffermwyr at goetiroedd fel amrywiol iawn.

Roedd y prif sylwadau'n cynnwys:

- Mae rhai ffermwyr yn cydnabod manteision ymarferol coed, gan gynnwys fel lloches ac ar gyfer bioamrywiaeth.
- Mae coetir yn aml yn cael ei ystyried ar wahân i'r fenter fferm graidd.
- Mae gan ffermwyr agwedd ansicr neu bwyllog tuag at
- Mae pryderon ynghylch colli tir amaethyddol yn barhaol yn parhau i ddylanwadu ar agweddau.

Nododd rhai cynghorwyr fod ffermwyr yn aml yn ystyried coetiroedd yn aneconomaidd oni bai eu bod yn cael eu rheoli ar raddfa fawr, tra bo eraill yn tynnu sylw at y ffaith y gallai canfyddiadau amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau a systemau ffermio.

*"Mae coed yn aml yn cael eu hystyried yn rhwymedigaeth."* - **Ymateb cynghorydd**

Dywedodd 6 o'r 16 cynghorydd y byddai ffermwyr cyfagos, a fyddai'n aml yn wrthwynebol neu'n ddeifiol i ddechrau, yn dod yn chwilfrydig am greu coetiroedd, yn enwedig ar ôl iddynt ddechrau gweld y manteision economaidd.



**Ffigur 5:** Tirwedd yng nghanolbarth Cymru, sy'n dangos rhedyndir, tir pori, bryniau agored, gwrychoedd a choetiroedd.

# SAFBWYNTIAU CYNGHORWYR

### 4. Coetiroedd fel asedau busnes neu rwymedigaethau polisi

Dywedodd cynghorwyr fod ffermwyr yn dehongli coetiroedd mewn sawl ffordd wahanol.

Roedd y prif sylwadau'n cynnwys:
- Mae rhai ffermwyr yn ystyried coed yn bennaf fel rhwymedigaethau polisi, yn enwedig mewn perthynas â chynlluniau amgylcheddol.
- Mae llawer o ffermwyr yn ystyried coetiroedd yn faich neu'n rhwymedigaeth sydd ar wahân i'r model busnes fferm craidd ac yn wastraff tir amaethyddol.
- Yn aml, nid yw coedwigaeth gynhyrchiol yn cael ei hystyried yn rhan o fenter y fferm oni ddangosir enillion economaidd clir.

Tynnodd nifer o gynghorwyr sylw hefyd at y ffaith fod ffermwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd gweld coetiroedd fel ased busnes oherwydd canfyddiadau am golli tir amaethyddol yn barhaol, cyfnodau hir a llif arian cyfnodol o deneuo a chynhaeaf terfynol.

### 5. Rhwystrau i greu a rheoli coetiroedd

Nododd cynghorwyr amrywiaeth o rwystrau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ffermwyr.

Roedd y prif rwystrau'n cynnwys:
- Pryderon ynghylch newid defnydd tir yn barhaol.
- Ansicrwydd economaidd a llif arian.
- Dim llawer o wybodaeth am reoli coetiroedd a marchnadoedd pren.
- Gwrthwynebiad diwylliannol sy'n gysylltiedig â thraddodiadau ffermio a hunaniaethau sy'n seiliedig ar dda byw.

Tynnodd rhai cynghorwyr sylw hefyd at y ffaith efallai nad oes gan ffermwyr hyder yn yr achos economaidd hirdymor dros greu coetiroedd, yn enwedig lle nad yw gwybodaeth am y farchnad yn glir.

### 6. Polisïau, biwrocratiaeth a phrosesau rheoleiddio

Nodwyd yn eang bod prosesau rheoleiddio yn gyfyngiad mawr.

Roedd y prif themâu yn cynnwys:
- Roedd caniatadau i greu coetiroedd yn aml yn cael eu disgrifio fel rhai cymhleth sy'n cymryd llawer o amser.
- Roedd rheoliadau cynefinoedd a chyfyngiadau amgylcheddol yn aml yn cael eu hystyried yn gyfyngol neu'n rhy ragnodol.



- Nodwyd bod mapio anghysondebau a phrosesau cymeradwyo hir yn rhwystrau i gyflawni'r cynllun.
- Ystyriwyd bod ansicrwydd rheoleiddiol yn ffactor a oedd yn lleihau hyder ffermwyr mewn cynlluniau coetir.

Roedd cynghorwyr yn aml yn disgrifio prosesau rheoleiddio fel rhai cymhleth ac anodd eu defnyddio.

*"Mae'r broses yn feichus a chymhleth ac nid yw'n briodol."*
- **Ymateb cynghorydd**

Awgrymodd nifer o gynghorwyr hefyd y gallai'r canfyddiad o wrthwynebiad rheoleiddiol i goedwigoedd masnachol atal ffermwyr rhag mynd ar drywydd prosiectau creu coetiroedd.

### 7. Argaeledd contractwyr a chapasiti gweithredol

Dywedodd 9 o'r 16 o gynghorwyr nad oes digon o gontractwyr i weithredu ar raddfa coetir fferm.

Roedd y prif sylwadau'n cynnwys:
- Dywedodd y rhan fwyaf o gynghorwyr fod prinder contractwyr, gydag un yn dweud bod bwlch mewn hyfforddiant.
- Ystyriwyd ei bod yn anoddach darparu adnoddau ar gyfer gwaith coetir ar raddfa lai na gweithrediadau coedwigaeth mawr.
- Roedd sgiliau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rheoli coetiroedd weithiau'n cael eu disgrifio fel rhai cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig.

Awgrymodd un cynghorydd y gallai argaeledd contractwyr wella pe bai rhaglenni plannu cyson yn cynyddu'r galw am wasanaethau coedwigaeth.

# SAFBWYNTIAU CYNGHORWYR

### 8. Marchnadoedd pren a chynnyrch o goetiroedd fferm

Dywedodd cynghorwyr fod pren o goetiroedd fferm yn mynd i nifer cyfyngedig o farchnadoedd ar hyn o bryd.

Roedd y cynnyrch nodweddiadol yn cynnwys:
- Coed tân
- Sglodion coed biomas
- Deunyddiau ffensio
- Rhywfaint o foncyffion
- Roedd pren o goetiroedd fferm bach yn aml yn cael ei ddisgrifio fel gwastraff gwerth isel neu a ddefnyddir yn lleol, gyda mynediad i'r farchnad weithiau'n cael ei gyfyngu gan raddfa a chostau trafnidiaeth.

Tynnodd cynghorwyr sylw hefyd at ymwybyddiaeth gyfyngedig ymysg ffermwyr o sut gall rheoli coetiroedd gynhyrchu ffrydiau incwm parhaus. Er bod llawer o ffermwyr yn deall grantiau creu coetiroedd, mae llai yn gyfarwydd â'r potensial i gynhyrchu incwm rheolaidd drwy deneuo, cynaeafu coed neu brosesu lleol.

*"Prin yw'r ddealltwriaeth o gynhyrchu incwm rheolaidd o gynyddrannau cynaeafu ac ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio a gwerthu'r coed eu hunain i farchnadoedd arbenigol lleol." -* **Ymateb cynghorydd**

### 9. Ymddiriedaeth a hygrededd gyda'r sector coedwigaeth a chyrff rheoleiddio

Roedd cynghorwyr yn disgrifio gwahaniaeth clir rhwng ymddiriedaeth mewn unigolion sy'n gweithio yn y sector coedwigaeth a diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau a phrosesau rheoleiddio.

Roedd y prif sylwadau'n cynnwys:
- Mae ffermwyr yn aml yn ymddiried mewn cynghorwyr unigol, coedwigwyr a sefydliadau sydd wedi'u gwreiddio'n lleol fel 'Ceiniogi'r Coed' y mae ganddynt berthynas waith uniongyrchol â nhw.
- Roedd perthnasoedd dibynadwy yn aml yn cael eu meithrin drwy ymgysylltu wyneb yn wyneb a rolau cynghori tymor hir.
- Disgrifiwyd bod ymddiriedaeth mewn cyrff rheoleiddio a phrosesau cymeradwyo yn aml yn isel.
- Tynnodd nifer o gynghorwyr sylw at rwystredigaeth â phrosesau biwrocrataidd, cymeradwyaeth araf a phenderfyniadau rheoleiddio anghyson.
- Cyfeiriwyd yn aml at reoliadau cynefinoedd a dehongli dynodiadau cynefinoedd â blaenoriaeth fel rhwystrau i greu coetiroedd lle'r oedd ffermwyr yn teimlo nad oedd hyblygrwydd ymarferol a phragmatig i wneud penderfyniadau.



- Disgrifiwyd negeseuon cymysg rhwng amcanion polisi sy'n hyrwyddo plannu coed a rhwystrau rheoleiddiol i gymeradwyo cynlluniau fel rhai sy'n cyfrannu at amheuaeth ffermwyr ynghylch cynlluniau coetir.

*"Mae ffermwyr yn aml yn ymddiried mewn coedwigwyr, ond nid y rheoleiddwyr." -* **Ymateb cynghorydd**

### 10. Cyfleoedd ar gyfer gwell cefnogaeth gynghorol

Awgrymodd cynghorwyr sawl ffordd o gryfhau ymgysylltiad â ffermwyr.

Dyma'r prif awgrymiadau:
- Offer modelu economaidd cliriach i ddangos canlyniadau ariannol creu coetiroedd.
- Astudiaethau achos ymarferol ac enghreifftiau gan gyfoedion sy'n dangos integreiddio coetiroedd fferm yn llwyddiannus.
- Gwell canllawiau wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd fferm yn hytrach na gweithwyr proffesiynol ym maes coedwigaeth.
- Mwy o gydweithio ag undebau'r ffermwyr, Cyswllt Ffermio a rhwydweithiau cynghori.
- Tynnodd rhai asiantwyr a chynghorwyr sylw hefyd at yr angen am well gwybodaeth am farchnadoedd coed a chadwyni cyflenwi, yn enwedig lle mae gan ffermwyr ddiddordeb mewn cyfleoedd arallgyfeirio.

*"Byddai tystiolaeth o'r manteision economaidd a masnachol i ffermwyr...yn helpu i gyfleu gwerth coetiroedd." -* **Ymateb cynghorydd**

Tynnodd cynghorwyr sylw hefyd at bwysigrwydd cydnabod rôl ffermwyr fel cyfranogwyr gweithredol mewn systemau rheoli a chadwyni cyflenwi coetiroedd.

*"Mae hyn yn mynd y tu hwnt i 'ddarpariaeth' ac mae angen dod â ffermwyr i mewn fel arbenigwyr perthnasol yn y sector coetiroedd." -*
**Ymateb cynghorydd**

# TRAFODAETH

## Gwybodaeth Allweddol gan Ffermwyr a Chynghorwyr

Roedd yr astudiaeth hon yn cyfuno safbwyntiau ffermwyr sydd wedi sefydlu coetiroedd ar eu ffermydd â gwybodaeth gan gynghorwyr sy'n gweithio ar draws tirweddau amaethyddol yng Nghymru. Er bod y ddau grŵp wedi mynd ati i greu coetiroedd o wahanol safbwyntiau, daeth nifer o themâu cyson i'r amlwg.

### 1. Mae ymddiriedaeth a pherthnasoedd yn hanfodol i ymgysylltu

Pwysleisiodd ffermwyr a chynghorwyr fod ymgysylltu wyneb yn wyneb a pherthnasoedd dibynadwy yn hanfodol wrth drafod creu coetiroedd neu newid defnydd tir. Nododd y rhan fwyaf fod sgyrsiau ar y fferm ac ymweliadau safle yn llawer mwy effeithiol na chanllawiau ysgrifenedig neu negeseuon polisi yn unig. Yn yr un modd, tynnodd ffermwyr sylw at bwysigrwydd cael cyfryngwyr dibynadwy wrth geisio gwneud penderfyniadau ynghylch coedwigaeth.

### 2. Mae coed yn cael eu hystyried yn fwyaf cadarnhaol pan fyddant yn darparu gwerth ymarferol neu economaidd

Yn gyffredinol, roedd ffermwyr yn yr astudiaeth hon yn fwyaf cadarnhaol am goed lle'r oeddent yn darparu manteision swyddogaethol neu ariannol clir, fel lloches i dda byw, pren i'w ddefnyddio ar ffermydd, cyfleoedd i arallgyfeirio, neu wydnwch busnes hirdymor. Yn yr un modd, dywedodd cynghorwyr fod ffermwyr yn fwy parod i ystyried creu coetiroedd lle gellir dangos achos economaidd credadwy.

### 3. Mae coetir yn aml yn cael ei ystyried ar wahân i'r busnes fferm craidd

Roedd cynghorwyr yn dweud yn aml fod ffermwyr yn ystyried bod coetiroedd ar wahân i'r fenter ffermio yn hytrach na'u bod wedi'u hintegreiddio i fodel busnes y fferm. Mae'n ymddangos bod y canfyddiad hwn yn cael ei atgyfnerthu gan amserlenni hir sy'n gysylltiedig â chynhyrchu pren a ddim bod yn gyfarwydd iawn â rheoli coetiroedd.

### 4. Mae canfyddiadau diwylliannol yn parhau i fod yn ddylanwad sylweddol

Disgrifiodd ffermwyr a chynghorwyr ganfyddiadau diwylliannol parhaus mewn amaethyddiaeth sy'n siapio agweddau tuag at goed. Gellir ystyried bod creu coetiroedd yn gwrthdaro â chynhyrchu bwyd, ac nid yw llawer o ffermwyr eto'n ystyried coed yn gnwd cynhyrchiol yn yr un modd â mentrau amaethyddol. Nododd cynghorwyr hefyd fod negeseuon polisi yn hanesyddol wedi pwysleisio amcanion bioamrywiaeth a chreu coetiroedd brodorol. Er bod cefnogaeth eang i'r nodau hyn, gall y fframwaith hwn hefyd gyfrannu at argraffiadau ffermwyr o goetiroedd yn bennaf fel mesur amgylcheddol yn hytrach nag fel elfen gynhyrchiol neu amlbwrpas o fusnesau fferm.

### 5. Mae dyluniad polisi a chymhlethdod rheoleiddiol yn dylanwadu ar hyder ffermwyr

Roedd cynghorwyr yn nodi prosesau rheoleiddio a chymhlethdod polisi yn gyson fel ffactorau a all annog pobl i beidio â chreu coetiroedd. Cyfeiriwyd yn aml at fapio anghysondebau, rheoliadau cynefinoedd a phrosesau cymeradwyo hir fel rhwystrau i gyflawni cynlluniau. Nododd ffermwyr a chynghorwyr hefyd y gall gofynion plannu rhagnodol iawn leihau ymgysylltiad ffermwyr lle maent yn cyfyngu ar hyblygrwydd o ran dewis rhywogaethau neu ddyluniad coetiroedd.

### 6. Mae angen eglurder economaidd a llwybrau'r farchnad

Tynnodd y ddau grŵp sylw at yr angen am wybodaeth gliriach am botensial economaidd coetiroedd ar ffermydd, gan gynnwys marchnadoedd pren, arferion rheoli a chadwyni cyflenwi. Mynegodd ffermwyr ddiddordeb arbennig mewn deall sut gallai pren a dyfir ar ffermydd gysylltu â marchnadoedd prosesu ac adeiladu lleol.

### 7. Mae sgiliau a chapasiti'r gadwyn gyflenwi yn dal yn bwysig

Tynnodd ffermwyr a chynghorwyr sylw at fylchau mewn sgiliau, argaeledd contractwyr a gwybodaeth am reoli coetiroedd, yn enwedig ar raddfa coetiroedd fferm. Roedd diddordeb hefyd mewn cyfleoedd i ddatblygu marchnadoedd pren lleol a chapasiti prosesu ar raddfa fach.

### 8. Gall mabwysiadwyr cynnar ddylanwadu ar newid ehangach

Mae'r ffermwyr a gyfwelwyd yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli mabwysiadwyr cynnar sydd eisoes wedi sefydlu coetir o fewn eu busnesau fferm. Dywedodd pob un eu bod yn barod i rannu eu profiadau drwy gynnal ymweliadau safle neu ymgysylltu yn y dyfodol. Nododd ffermwyr a chynghorwyr y gallai dysgu gan gyfoedion a ffermwyr yn cyfnewid gwybodaeth chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio agweddau tuag at goed ar ffermydd.

Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysoni polisi creu coetiroedd, cymorth cynghori a datblygu'r gadwyn gyflenwi â realiti ymarferol busnesau fferm.

# CRYNODEB A CHASGLIADAU

Mae canfyddiadau ffermwyr a chynghorwyr yn cyfeirio at set o gysylltiadau cyson rhwng y cymhellion dros greu coetiroedd, yr amodau sy'n galluogi integreiddio llwyddiannus, a'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar y defnydd ehangach ar hyn o bryd. Crynhoir y cysylltiadau hyn yn Nhabl 1.

Mae'r cysylltiadau a amlinellir yn Nhabl 1 yn dangos sut mae cymhellion ffermwyr, amodau polisi a chyfleoedd yn y farchnad yn rhyngweithio i lywio penderfyniadau am greu coetiroedd o fewn systemau fferm.

**Tabl 1:** Cymhellion, rhwystrau a chyfleoedd i ffermwyr ar gyfer coetiroedd fferm

| Cymhelliant Ffermwyr | Amodau Galluogi | Rhwystrau | Cyfleoedd |
|---|---|---|---|
| Arallgyfeirio ffermydd a sefydlogrwydd incwm | Grantiau Creu Coetiroedd | Prosesau cymeradwyo a rheoleiddio cymhleth | Arweiniad cliriach a llai o fiwrocratiaeth |
| Pren cynhyrchiol fel cnwd fferm | Enghreifftiau gan gyfoedion a llwyddiant lleol amlwg | Dealltwriaeth gyfyngedig o lwybrau a marchnadoedd pren | Negeseuon cliriach ar lwyfannau ffermio (Cyswllt Ffermio, Farmers Weekly, sioeau amaethyddol) |
| Gwydnwch economaidd ar gyfer ffermydd teuluol yn y dyfodol | Cynghorwyr dibynadwy ac astudiaethau achos ymarferol | Pryderon diwylliannol am goetiroedd yn disodli tir amaethyddol | Ffermydd yn cyfnewid gwybodaeth |
| Defnyddio tir yn hyblyg mewn busnesau fferm | Creu coetiroedd dan arweiniad ffermwyr | Gofynion plannu rhagnodol | Mwy o hyblygrwydd mewn cynlluniau creu coetiroedd |
| Gwerth lleol o goed a dyfir ar ffermydd | Mynediad at brosesu a marchnadoedd | Cysylltiadau cyfyngedig â chadwyni cyflenwi pren | Cysylltiadau cryfach rhwng coetiroedd fferm a chadwyni cyflenwi pren |



**Ffigur 6:** Coetir ar y fferm wedi'i integreiddio i ardal lai cynhyrchiol ac yn cael ei reoli ar gyfer cynhyrchu pren.
*Llun drwy garedigrwydd Ffermwr 2.*

# CRYNODEB A CHASGLIADAU

### Coedwigaeth Gynhyrchiol o fewn Busnesau Fferm

I lawer o ffermwyr a gafodd eu cyfweld yn yr astudiaeth hon, daeth creu coetir yn fwy deniadol iddynt pan ystyriwyd coed nid yn unig fel asedau amgylcheddol ond hefyd fel elfennau cynhyrchiol o fusnes y fferm — fel cnwd tymor hir i bob pwrpas. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu pren, defnyddio cynnyrch pren ar y fferm, a chyfleoedd arallgyfeirio fel prosesu ar raddfa fach. Yn yr achosion hyn, roedd coed yn aml yn cael eu disgrifio mewn termau tebyg i fentrau fferm eraill, a oedd yn gallu cyfrannu at gydnerthedd ffermydd ac incwm yn y dyfodol. Fel hyn, roedd coetir yn aml yn cael ei ystyried nid fel rhywbeth yn lle ffermio, ond fel defnydd tir ategol sy'n gallu cynnal gwydnwch hirdymor busnes y fferm.

Mewn rhai achosion, roedd ffermwyr yn disgrifio cysylltiad hanesyddol rhwng ffermydd a phrosesu pren ar raddfa fach, gan gynnwys enghreifftiau lle'r oedd cenedlaethau blaenorol wedi gweithredu melinau llifio neu wedi defnyddio pren fferm ar gyfer adeiladu a ffensio.

**Ffigur 3:** Seilwaith fferm yn defnyddio pren a gynhyrchwyd ar fferm.



**Figure 4:** Seilwaith fferm wedi'i adeiladu gan ddefnyddio pren fferm. *Lluniau gan Anna Dauksta.*



Fodd bynnag, nododd nifer o ffermwyr a chynghorwyr fod cynlluniau creu coetiroedd a negeseuon cynghori yn aml yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniadau amgylcheddol, yn enwedig sefydlu coetiroedd brodorol. Er bod yr amcanion hyn yn cael eu cefnogi'n eang, mynegodd rhai ffermwyr ansicrwydd ynghylch sut mae coedwigaeth gynhyrchiol yn cyd-fynd â'r fframweithiau polisi presennol.

### Marchnadoedd Carbon a Safbwyntiau Ffermwyr

Cyfeiriodd cynghorwyr yn aml at farchnadoedd carbon a'r Cod Carbon Coetiroedd fel sbardun posibl i greu coetiroedd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr a gafodd eu cyfweld yn yr astudiaeth hon yn fwy gofalus ar y cyfan ynghylch cynlluniau carbon, gyda llawer yn mynegi ansicrwydd ynghylch ymrwymiadau tymor hir a goblygiadau cytundebol.

Mae hyn yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng safbwyntiau cynghorwyr ac ymarferwyr. Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr yn ystyried cynlluniau carbon yn ofalus ac yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar reoli tir yn ymarferol, cadernid ffermydd yn y tymor hir, a'r potensial i bren a chynnyrch pren gefnogi defnydd ar ffermydd a chadwyni cyflenwi lleol lle bo hynny'n bosibl yng Nghymru.

I lawer o ffermwyr, roedd cadw gwerth yn lleol drwy gynhyrchu pren ac arallgyfeirio ffermydd yn ymddangos yn fwy diriaethol na chymryd rhan mewn marchnadoedd carbon.

# CRYNODEB A CHASGLIADAU

### Cyfryngwyr Dibynadwy ac Ymgysylltu â Ffermwyr

Pwysleisiodd ffermwyr a chynghorwyr bwysigrwydd cysylltiadau dibynadwy wrth drafod creu coetiroedd a newid defnydd tir. Roedd ffermwyr yn aml yn tynnu sylw at rôl cyfryngwyr dibynadwy fel asiantwyr coedwigaeth a chynghorwyr a allai eu harwain drwy gynllunio coetiroedd, ceisiadau am grantiau a phrosesau rheoleiddio.

Roedd ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn enwedig drwy ymweliadau ar y fferm a thrafodaethau ymarferol, yn cael eu disgrifio'n gyson yn fwy effeithiol na chanllawiau ysgrifenedig neu negeseuon polisi. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod meithrin ymddiriedaeth a dysgu gan gyfoedion yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o godi hyder ffermwyr yn y gwaith o greu a rheoli coetiroedd.

### Cyfleu Coedwigaeth Gynhyrchiol o fewn Rhwydweithiau Ffermio

Nododd nifer o ffermwyr hefyd fod creu coetiroedd yn aml yn cael ei gyflwyno'n bennaf drwy naratifau amgylcheddol, tra bo'r potensial i goed weithio fel cnwd cynhyrchiol o fewn busnesau fferm yn llai hyfyw o fewn llwyfannau ffermio prif ffrwd.

Awgrymodd ffermwyr a chynghorwyr y gallai gwella sut mae coedwigaeth gynhyrchiol yn cael ei chyfleu drwy rwydweithiau ffermio dibynadwy – gan gynnwys Cyswllt Ffermio, sioeau amaethyddol a chyfryngau ffermio – helpu i ddangos y rôl economaidd ac ymarferol y gall coetiroedd fferm ei chwarae o ran cefnogi busnesau ffermio gwydn. Awgrymodd un cynghorydd y gallai cyhoeddiadau ffermio prif ffrwd dynnu sylw at werth pren cynhyrchiol mewn ffyrdd tebyg i sut mae prisiau cnydau a da byw yn cael eu hadrodd yn rheolaidd, gan helpu ffermwyr i ddeall gwerth economaidd posibl pren a dyfir ar ffermydd yn well.

Felly, gall gwella gwelededd coedwigoedd a'r defnydd o bren ar y fferm mewn cyd-destunau amaethyddol fod yn gam pwysig i helpu ffermwyr i weld coed fel rhan o system y fferm yn hytrach nag ar wahân iddi.

**Ffigur 5:** Defnyddio pren wedi'i dyfu ar fferm ar gyfer gwaith coed mewn llety gwyliau ar y fferm diolch i ffermwr sy'n cymryd rhan.
*Llun gan Anna Dauksta.*



# Y CAMAU NESAF

Un o ganlyniadau allweddol yr astudiaeth hon oedd datblygu cysylltiadau rhwng ffermwyr sy'n ymwneud yn weithredol â chreu coetiroedd a sefydliadau sy'n gweithio ar draws y sectorau ffermio a choedwigaeth, gan gynnwys cynghorwyr, asiantwyr, rhwydweithiau ffermio a Woodknowledge Wales. Mynegodd yr holl ffermwyr a gymerodd ran ddiddordeb mewn parhau â'r sgwrs gan nodi y byddent yn fodlon cynnal ymweliadau â ffermydd yn y dyfodol. Mae hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng ffermydd a chryfhau cysylltiadau rhwng marchnadoedd ffermio, coedwigaeth a phren.

Mae'r cyfleoedd sy'n deillio o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Ffermydd yn cyfnewid gwybodaeth
- Ymweliadau arddangos ar ffermydd
- Cyfathrebu gwell ynghylch coedwigaeth gynhyrchiol fel cnwd o fewn rhwydweithiau ffermio
- Llwybrau cliriach sy'n cysylltu creu coetiroedd fferm â marchnadoedd pren a chadwyni cyflenwi
- Cydweithio cryfach rhwng sefydliadau ffermio, cynghorwyr coedwigaeth a rhanddeiliaid y sector pren.

Mae profiadau'r mabwysiadwyr cynnar hyn yn dangos y gall coetiroedd chwarae nifer o rolau mewn busnesau fferm, gan gefnogi arallgyfeirio, gwydnwch a chyflenwi pren yn y dyfodol. Gallai adeiladu ar yr wybodaeth hon drwy ymgysylltu parhaus rhwng ffermwyr, asiantwyr a chynghorwyr, sefydliadau ffermio a'r sector coedwigaeth helpu i gryfhau rôl coetiroedd fferm yn economi goed newydd Cymru.

### Meysydd i'w harchwilio ymhellach

Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio sawl maes ychwanegol na chawsant eu cynnwys yn yr astudiaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiad ffermwyr ag addysg sy'n gysylltiedig â choetiroedd yn ystod hyfforddiant coleg amaethyddol, canfyddiadau o rôl coed wrth reoli dŵr a lleihau llygredd (fel y nodwyd yn ymchwil Pontbren).

Ar ben hynny, byddai'n werthfawr archwilio sut mae cyfleoedd creu coetiroedd ac integreiddio coed yn amrywio ar draws gwahanol fathau o dir a systemau ffermio yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd tir isel mwy cynhyrchiol. Gallai hyn gefnogi dull mwy strategol o ddefnyddio tir, gan nodi lle mae creu coetiroedd ar raddfa yn fwyaf priodol, yn ogystal â lle gall integreiddio o fewn systemau fferm arwain at nifer o fanteision gan gynnwys lloches, rheoli dŵr, clustogi maethynnau a chefnogi'r gwaith cyffredinol o reoli a chryfhau'r dirwedd a ffermir.


**Cyfeiriadau**

Llywodraeth Cymru (2025). Y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren: Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru.

Ymchwil y Senedd (2022). Y Sector Ffermio yng Nghymru

Cyswllt Ffermio (2021). Rheoli Coetiroedd Fferm yng Nghymru

**Woodknowledge Wales Limited**
22 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ

© WoodKnowledge Wales, 2026